

Fforwm Strategol Sirol yr iaith Gymraeg
1 Rhagfyr 2014
Ystafell Gynadledda, Y Llwyfan, Heol y Coleg, Caerfyrddin

Yn bresennol

Meirion Jones (Cadeirio)	Menter Gorllewin Sir Gâr
Gwyneth Ayers	Cyngor Sir Gâr
Cynghorydd Ryan Bartlett	Cyngor Sir Gâr
Dai Bryer	Urdd Gobaith Cymru
Huw Evans	Menter Cwm Gwendraeth Elli
Aled Davies	Cymraeg i Oedolion
Yvonne Davies-Grodzicka	Merched Y Wawr
Anne Dutton	Mudiad Meithrin
Llinos Evans	Cyngor Sir Gâr
Bethan James	Cyngor Sir Gâr
Meinir James	Dyfodol i'r iaith
Huw Thomas / Wyn?	Dyfodol i'r iaith
Dai Baker	Uned y Gymraeg yn y Gymuned, Llywodraeth Cymru
Euros Owen	Menter Bro Dinefwr
Dewi Snelson	Menter Gorllewin Sir Gâr
Cynghorydd Mair Stephens	Cyngor Sir Gâr
Bethan Williams	Cymdeithas yr Iaith Gymraeg
Owain Glenister	Menter Bro Dinefwr

Ymddiheuriadau

Gwyn Elfyn Jones	Menter Cwm Gwendraeth Elli
Owain Gruffydd	Menter Bro Dinefwr
Linda Evans	Estyn Llaw
Eirios Thomas	Mudiad Ffermwyr Ifanc Sir Gâr
Catrin Saunders	TWF
Dilwyn Jones	Llywodraeth Cymru
Ruth Morgan	Clybiau Gwawr

1.	Croeso Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Meirion Jones a diolchwyd i Gwyn Elfyn Jones, Cadeirydd Menter Cwm Gwendraeth Elli, am ei waith wrth gadeirio'r cyfarfod diwethaf a phwyllgor Mentrau Sir Gâr.	
2.	Cofnodion y cyfarfod diwethaf Cytunwyd bod y cofnodion o gyfarfod 3 Tachwedd 2014 yn gofnod cywir.	
3.	Diweddariad gan Lywodraeth Cymru Cafwyd diweddariad gan Dai Baker o ran y strwythur staffio newydd yn Llywodraeth Cymru. Esboniwyd bod Dilwyn Jones wedi symud i weithio yn yr Adran Addysg. Mae Bethan Webb wedi ei phenodi yn Ddirprwy Gyfarwyddwr a	

	bydd Iwan Evans yn gyfrifol am y berthynas gydag Awdurdodau Lleol.	
4.	Trafod argymhellion adroddiadau sy'n berthnasol i'r Fforwm Cymunedau Cymraeg: adroddiad a chynllun gwaith (dolen yma) Argymhelliad 1: Hybu datblygiad Bangor, Aberystwyth a Chaerfyrddin fel dinas-ranbarthau Cytunwyd ar y camau isod • Cryfhau'r ddolen gyda Phrifysgol y Drindod Dewi Sant a datblygiad yr Egin gan sicrhau cynrychiolaeth ar Fforwm Strategol y Gymraeg • Cylchredeg y taflenni busnes drafft (a gomisiynwyd gan y Cyngor Sir drwy Gwmni Iaith). Gofynnwyd i aelodau i ddanfon sylwadau ar y cynnwys. • Gwneud ymholiadau o ran datblygiad archfarchnad Sainsbury's yn Cross Hands ac amlygu natur ieithyddol yr ardal i'r cwmni Cytunodd yr aelodau y byddai modd gwneud gwaith penodol o ran hyrwyddo'r Gymraeg ym myd busnes gan fapio'r gwasanaethau cyfrwng Cymraeg sydd ar gael . Argymhelliad 2: Gwella effaith polisiâu'r Llywodraeth ar y Gymraeg gan ddefnyddio Asesiadau Effaith Ieithyddol trwy NCT 20 a chanllawiau perthnasol eraill er mwyn gallu hyrwyddo cynllunio rhanbarthol deinamig a chadarnhaol sydd hefyd yn llesol o safbwynt y Gymraeg. Nodwyd bod Arweinydd y Cyngor, y Cyngorydd Kevin Madge wedi danfon llythyr at Carl Sargeant AC o ran y Bil Cynllunio. Mae Cymdeithas yr Iaith wedi danfon llythyr yn enw 7 o Arweinyddion Cyngorau Cymru at y Gweinidog yn ogystal. Bydd swyddogion cynllunio'r Cyngor Sir yn cyfarfod â chynrychiolaeth o'r Llywodraeth er mwyn trafod hyn ymhellach. Nodwyd bod Dyfodol i'r Iaith wedi gwneud gwaith lobio a bod ymatebion swyddogol ar gael ar y wefan (dolen yma). Cytunwyd y byddai'r Fforwm yn medru cydweithio ar lunio Pecyn Croeso i Sir Gâr gan edrych yn benodol ar enghreifftiau Milltir Sgwâr, Symud i Geredigion a'r wybodaeth a baratowyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Argymhelliad 3: Cysoni darpariaeth addysg 3-14 oed ledled Môn, Gwynedd, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin fel y daw pob disgybl yn rhugl ac yn hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg. Cytunwyd y byddai'r Fforwm yn ymchwilio ymhellach i Siartr Iaith Gwynedd, gan gynnwys y data tracio a'r cytundeb o ran ysgolion, y cyngor sir, rhieni a llywodraethwyr. Nodwyd bod Mudiad Meithrin wedi cyhoeddi pecyn dilyniant a bod angen dechrau'r gwaith o hyrwyddo addysg ddwyieithog gyda phlant iau. Mae'r Mudiad yn cydweithio gydag ysgolion o ran y gofal cofleidiol hynny.	BJ BJ LLE GA

	Argymhelliad 5: Parhau i annog pobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau a chymdeithasu yn yr iaith Gymraeg trwy gefnogi mudiadau a chymdeithasau a thrwy sbarduno mentrau newydd. Cafwyd trafodaeth o ran argymhelliad 55 Adroddiad Gweithgor y Cyfrifiad, sef; “ Bod y Cyngor Sir yn cydlynu grŵp gweithredu strategol fyddai’n cynnwys ysgolion uwchradd, mudiadau ieuenctid y sir, y sector addysg bellach ac uwch a’r sector hamdden i gynllunio a chysylltu’r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg er mwyn sicrhau y gwneir y defnydd gorau posib o’r adnoddau sydd ar gael o fewn y Sir, i dargedu adnoddau yn ôl y gofyn ac i adnabod unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth.” Tanlinellwyd y pwysigrwydd o gyd-gynllunio cyfleoedd cyfrwng Cymraeg i bobl ifanc a bod angen ystyried darpariaeth clybiau chwaraeon yn hyn hefyd (argymhelliad 63 o adroddiad Gweithgor y Cyfrifiad); “ Bod y Cyngor Sir a’r Mentrau Iaith Lleol yn gweithio gyda chlybiau chwaraeon lleol i’w cefnogi i ddefnyddio’r Gymraeg ym mhob agwedd o’u darpariaeth, gan gynnwys iaith yr hyfforddiant a gweinyddiaeth y clwb (hefyd wedi’i gynnwys yn yr adran sefydliadau sy’n gweithio er budd y Gymraeg)”. Argymhelliad 6: Cytuno ar dargedau i ehangu gweithlu dwyieithog a gweithredu mewnol dwyieithog gydag asiantaethau perthnasol o fewn i gwmpas Safonau’r Iaith Gymraeg Cytunodd yr aelodau bod cyfle i’r Fforwm i gydweithio er mwyn hyrwyddo gwasanaethau cyfrwng Cymraeg ar draws y sir. Cytunwyd bod angen i’r Bwrdd Gwasanaethau Lleol i drafod ei rôl wrth wireddu’r Safonau Iaith. Cytunwyd bod angen cydweithio â’r Coleg Cymraeg Cenedlaethol er mwyn sicrhau bod ein pobl ifanc yn meddu ar sgiliau byd gwaith. Argymhelliad 7: Ehangu peilot Cynllun Aman Tawe i ardaloedd eraill sydd wedi profi shift i eithyddol amlwg yn y blynyddoedd diweddar a chefnogi datblygiadau pellach yng ngoleuni Adolygiad Prifysgol Caerdydd. Cytunodd Owain Glenister i gylchredeg manylion pellach i’r aelodau o ran Cynllun Aman Tawe. Cytunodd y Fforwm bod angen llunio rhaglen farchnata ar y cyd, gan flaenoriaethu yn ôl sail y dystiolaeth yn lleol. Argymhellion eraill – Cytunwyd bod angen cryfhau’r neges o ran Trosglwyddiad Iaith drwy’r Bwrdd Gwasanaethau Lleol, a dylid edrych ar ymchwil Kathryn Jones a Delyth Morris (dolen yma). Cytunwyd bod angen edrych ar fodelau o ran cymunedau Cymraeg cynaliadwy gan ystyried pa ffactorau sydd yn dylanwadu ar ddewisiadau unigolion. Tanlinellwyd pwysigrwydd y grŵp o 20,000 o bobl a nododd yng Nghyfrifiad 2011 eu bod yn medru deall y Gymraeg, ond ddim yn ei siarad.	OG
--	---	-----------

5.	Cylch Gorchwyl Cytunwyd i baratoi cylch gorchwyl drafft er mwyn ei drafod yn y cyfarfod nesaf.	BJ
6.	Grantiau Llywodraeth Cymru Nodwyd y byddai Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi'r prosiectau llwyddiannus a fyddai'n rhan o Gronfa Cyfalaf 2014/15 ar 3 Rhagfyr. Atgoffwyd yr aelodau bod dau gais wedi'u cyflwyno o Sir Gâr – canolfan Y Lle yn Llanelli a chais gan Brifysgol y Drindod Dewi Sant ar gyfer sefydlu canolfan Gymraeg yng Nghaerfyrddin.	
	Dyddiad y cyfarfod nesaf Cytunwyd i wahodd y Dr Dylan Phillips i'r cyfarfod nesaf i gyflwyno'r adroddiad ystadegol manwl ar sail ardal y tair menter. Nodwyd bod y dyddiadau canlynol yn gyfleus, ond dylid cytuno dyddiad yn unol ag argaeledd Dylan. Nos Lun 19 Ionawr 2015 Nos Lun 26 Ionawr 2015 Nos Lun 2 Chwefror 2015	BJ